# Ordinhadau Prifysgol Cymru

## Mynegai cynnwys


| Ordinhad | | Tudalen |
|---|---|---|
| | CYFLWYNIAD | |
| A | Diffiniadau | 2 |
| B | Awdurdod yr Ordinhadau | 2 |
| C | Dehongli'r Ordinhadau | 3 |
| D | Cyflwyno Rhybuddion a Dogfennau | 3 |
| E | Gweithdrefn | 3 |
| | SWYDDOGION | |
| 01 | Y Canghellor | 4 |
| 02 | Y Dirprwy Ganghellor | 5 |
| 03 | Yr Is-Ganghellor | 6 |
| 04 | Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor | 7 |
| | Y CYNGOR A PHWYLLGORAU'R CYNGOR | |
| 05 | Aelodaeth y Cyngor | 8 |
| 06 | Pwerau'r Cyngor | 11 |
| 07 | Pwyllgorau'r Cyngor | 15 |
| 08 | Dilëwyd | 17 |
| 09 | Dilëwyd | 17 |
| 10 | Dilëwyd | 17 |
| 11 | Dilëwyd | 17 |
| 12 | Dilëwyd | 17 |
| 13 | Dilëwyd | 17 |
| 14 | Dilëwyd | 17 |
| 15 | Dilëwyd | 17 |
| 16 | Gwasg Prifysgol Cymru | 18 |
| 17 | Dilëwyd | 19 |
| 18 | Dilëwyd | 19 |
| | ACADEMAIDD | |
| 19 | Aelodaeth y Bwrdd Academaidd | 20 |
| 20 | Pwerau'r Bwrdd Academaidd | 21 |
| 21 | Cydgysylltiad Sefydliadau | 24 |
| 22 | Aelodaeth Myfyrwyr ar Bwyllgorau'r Brifysgol | 25 |
| 23 | Matriciwleiddio | 26 |
| 24 | Teitlau'r Brifysgol | 27 |
| 25 | Graddau, Diplomâu a Thystysgrifau | 28 |
| 26 | Cynulliadau'r Brifysgol/Derbyn i Raddau Cyntaf ac Uwch | 31 |
| 27 | Graddau Er Anrhydedd | 33 |
| | ARALL | |
| 28 | Graddedigion Prifysgol Cymru | 34 |
| 29 | Sêl y Brifysgol | 35 |
| 30 | Yr Archwilwyr | 36 |

**CYFLWYNIAD**

**A: Diffiniadau (ffynhonnell: Statud 1)**

Mae "y Brifysgol" yn golygu Prifysgol Cymru.

Mae "y Siarter" yn golygu Siarter Atodol y Brifysgol sydd mewn grym ar y pryd.

Mae "y Statudau" yn golygu'r Statudau hyn ac unrhyw Statud neu Statudau a fydd am y tro yn eu diwygio neu'n eu disodli.

Mae "y Cyngor" yn golygu Cyngor y Brifysgol.

Mae "y Bwrdd Academaidd" yn golygu Bwrdd Academaidd y Brifysgol.

Mae "y Graddedigion" yn golygu'r bobl hynny y bydd y Brifysgol wedi cyflwyno gradd neu raddau iddynt.

Mae "Staff y Brifysgol" yn golygu'r bobl a benodir i'r staff hwnnw gan neu drwy awdurdod y Cyngor.

Mae "Sefydliadau Achrededig" yn golygu'r sefydliadau hynny a ddynodir gan y Brifysgol dan ddarpariaethau'r Siarter a'r Ordinhadau, ac am y tro, yn Sefydliadau Achrededig.

Mae "Sefydliadau Perthynol" yn golygu'r sefydliadau hynny a ddynodir gan y Brifysgol dan ddarpariaethau'r Siarter a'r Ordinhadau, ac am y tro, yn Sefydliadau Perthynol.

Mae "Cyrff Cysylltiol" yn golygu Sefydliadau Achrededig, Sefydliadau Perthynol ac unrhyw gyrff neu sefydliadau eraill y mae gan y Brifysgol gysylltiad â hwy yn unol ag Erthygl V(j) y Siarter.

Mae "Darpariaeth Ddilysedig" yn golygu'r cynlluniau astudio neu'r rhaglenni ymchwil hynny a ddarperir mewn sefydliadau nad ydynt yn Sefydliadau Achrededig neu Berthynol ac a gymeradwywyd gan y Brifysgol ac a ddynodwyd ganddi yn gynlluniau astudio dilysedig neu raglenni ymchwil dilysedig mewn modd a ddynodir drwy Ordinhad.

Mae "Ordinhadau" yn golygu unrhyw Ordinhadau a wneir yn unol â'r Siarter neu'r Statudau.

Mae "Rheoliadau" yn golygu unrhyw Reoliadau a wneir yn unol â'r Siarter neu'r Statudau neu'r Ordinhadau.

Mae "Rheol Sefydlog" yn golygu Penderfyniad a wneir gan unrhyw gorff a gyfansoddir trwy hyn at ddiben rheoli ei drefn weithredu ei hun.

Mae "Blwyddyn" yn golygu blwyddyn galendr.

Bydd geiriau sydd yn yr unigol yn cynnwys y lluosog a geiriau sydd yn y lluosog yn cynnwys yr unigol onid ymddengys bwriad i'r gwrthwyneb.

Bydd i'r geiriau a ddiffinnir yn y Siarter neu'r Statudau yr un ystyr yn yr Ordinhadau a'r Rheoliadau onid yw'r cyd-destun yn anghydnaws â hynny.

**B: Awdurdod yr Ordinhadau (ffynhonnell: Statud 28)**

(1) Yn ogystal â'r holl bwerau a roddir gan y Siarter neu'r Statudau ar gyfer Ordinhadau i ddarparu ar gyfer unrhyw fater, neu ei reoli, fe fydd, yn ddarostyngedig i'r Siarter a'r Statudau, bŵer i Ordinhadau ddarparu ar gyfer unrhyw fater yr ystyrir y dylid gwneud darpariaeth ar ei

gyfer ac nad oes unrhyw drefn weithredu arall wedi ei phennu ar ei gyfer gan y Siarter neu'r Statudau.

(2) Gall unrhyw Ordinhad a wneir yn unol â'r Siarter a'r Statudau bennu y gall unrhyw fater yr effeithir arno drwy hynny gael ei reoli ymhellach drwy Reoliad neu Reol Sefydlog.

**C: Dehongli'r Ordinhadau**

Rhaid dehongli'r Ordinhadau mewn modd fel nad ydynt yn gwrthdaro â'r Siarter a'r Statudau.

**D: Cyflwyno Rhybuddion a Dogfennau**

(1) Gall unrhyw rybudd neu ddogfen y mae'n ofynnol ei rhoi neu ei hanfon at berson o dan yr Ordinhadau gael ei rhoi neu ei hanfon yn bersonol drwy'r post neu'r e-bost ato neu ati i'w gyfeiriad neu ei chyfeiriad diwethaf a gofrestrwyd gan y Brifysgol.

(2) Os anfonir rhybudd neu ddogfen arall drwy'r post neu'r e-bost, fe fernir y bydd wedi ei chyflwyno'n briodol ar y diwrnod yn dilyn y diwrnod y bydd wedi ei phostio neu'i hanfon.

**E: Gweithdrefn (ffynhonnell: Statud 31)**

Ac eithrio i'r graddau y gwneir darpariaeth arall yn benodol yn y Siarter neu'r Statudau, gall Ordinhadau ddarparu ar gyfer unrhyw weithdrefnau sy'n ymwneud â gweithredu busnes y Cyngor, y Bwrdd Academaidd a phwyllgorau eraill y Brifysgol.

**ORDINHAD 1: Y CANGHELLOR**

1. Penodir Canghellor y Brifysgol gan y Cyngor dan y cyfryw delerau a bennir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.

2. Bydd holl aelodau'r Brifysgol hefyd yn gymwys i gyflwyno enwebiadau i'r Cyngor eu hystyried ac fe'u hysbysir yn ysgrifenedig pan fydd swydd yn wag.

3. Os oes mwy nag un enwebiad, gwneir y penodiad drwy bleidlais gudd yr aelodau sy'n bresennol yng nghyfarfod y Cyngor, a phenodir dau swyddog craffu o blith aelodau'r Cyngor.

4. Os ceir un enwebiad yn unig, cymeradwyir yr enw drwy fwyafrif syml o aelodau'r Cyngor sy'n bresennol ac yn pleidleisio.

5. Bydd y Canghellor yn dal ei swydd yn ystod ei oes neu ei hoes neu tan iddo neu iddi ymddiswyddo.

**ORDINHAD 2: Y DIRPRWY GANGHELLOR**

1. Penodir Dirprwy Ganghellor y Brifysgol gan y Cyngor dan y cyfryw delerau a bennir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.

2. Bydd holl aelodau'r Cyngor yn gymwys i gyflwyno enwebiadau i'r Cyngor eu hystyried ac fe'u hysbysir yn ysgrifenedig pan fydd swydd yn wag.

3. Os oes mwy nag un enwebiad, gwneir y penodiad drwy bleidlais gudd yr aelodau sy'n bresennol yng nghyfarfod y Cyngor, a phenodir dau swyddog craffu o blith aelodau'r Cyngor.

4. Os ceir un enwebiad yn unig, cymeradwyir yr enw drwy fwyafrif syml o aelodau'r Cyngor sy'n bresennol ac yn pleidleisio.

5. Bydd y Dirprwy Ganghellor yn dal ei swydd am gyfnod o dair blynedd neu tan ei ymddiswyddiad cynharach, a bydd yn gymwys i'w ail-ethol am gyfnodau pellach o dair blynedd. Er hynny, gall y Cyngor, adeg penodi neu ailbenodi unrhyw Ddirprwy Ganghellor, bennu y bydd tymor ei swydd yn fyrrach na'r cyfnod a ddarperir fel arall ar gyfer y swydd hon.

**ORDINHAD 3: YR IS-GANGHELLOR**

1. Yn unol â'r Weithred a wnaed rhwng y Brifysgol a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ar 18 Awst 2017, Is-Ganghellor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant fydd yr Is-Ganghellor gyda thymor y ddwy swydd yn cydredeg. Os bydd swydd yr Is-Ganghellor yn wag, neu os digwydd bod yr Is-Ganghellor yn analluog drwy salwch neu achos arall i gyflawni dyletswyddau'r swydd, bydd y swyddog enwebedig a benodir gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn Is-Ganghellor gweithredol.

2. Daw awdurdod yr Is-Ganghellor o Statud 6:

    1. Yr Is-Ganghellor fydd y Prif Swyddog Academaidd a Gweithredol a bydd yn gyfrifol i'r Cyngor am hybu a hyrwyddo dibenion y Brifysgol ac am drefnu a chyfarwyddo busnes y Brifysgol.

    2. Bydd yr Is-Ganghellor, ex officio, yn aelod o'r Cyngor, y Bwrdd Academaidd a phob corff arall y gellir rhoi iddo gyfrifoldebau sy'n effeithio ar lywodraethu'r Brifysgol gan y Siarter, Statudau neu Ordinhadau, a phob pwyllgor ohonynt.

    3. Bydd gan yr Is-Ganghellor y pŵer i ddirprwyo i swyddogion eraill a staff y Brifysgol y dyletswyddau hynny o eiddo'r Is-Ganghellor ag y gwêl yn dda.

3. At ddibenion 1 a 2 uchod, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo dirprwyo awdurdod yn llawn i'r Prif Swyddog Gweithredu i ymarfer pŵer ac awdurdod yr Is-Ganghellor ar unrhyw achlysuron nad yw ar gael i'w hymarfer yn bersonol.

**ORDINHAD 4: CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y CYNGOR**

1. Yn unol â'r Weithred a wnaed rhwng y Brifysgol a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ar 18 Awst 2017, Cadeirydd Cyngor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant fydd Cadeirydd y Cyngor gyda thymor y ddwy swydd yn cydredeg.

2. Gall y Cyngor benodi Is-Gadeirydd y Cyngor i wneud y canlynol:

    1. darparu cymorth i'r Cadeirydd wrth arwain y Cyngor;

    2. dirprwyo ar ran y Cadeirydd ar yr achlysuron hynny pan fydd y Cadeirydd yn absennol, a all gynnwys cadeirio cyfarfodydd, gweithio gyda'r Is-Ganghellor a gwneud penderfyniadau yn unol â'r Cynllun Dirprwyo;

    3. gweithredu fel cynrychiolydd ffurfiol y Brifysgol yn allanol ac mewn digwyddiadau seremonïol.

3. Bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn ceisio enwebiadau ar gyfer rôl Is-Gadeirydd y Cyngor o blith aelodau annibynnol y Cyngor. Os ceir dau ymgeisydd yn unig ar gyfer y rôl, rhaid i aelod annibynnol arall eilio'r cynnig. Os oes mwy na dau ymgeisydd, gwneir penodiad drwy bleidlais gudd o aelodau'r Cyngor. Yn achos pleidlais glwm, Cadeirydd y Cyngor fydd yn penderfynu'r canlyniad.

4. Bydd yr Is-Gadeirydd fel arfer yn dal y swydd am gyfnod nid hwy na 4 (pedair) blynedd a bydd fel arfer yn gymwys i'w ailbenodi am 1 (un) cyfnod pellach.

5. Gellir diswyddo'r Cadeirydd a/neu Is-Gadeirydd am y rhesymau canlynol:

    1. euogfarn am drosedd y gallai'r Cyngor farnu sy'n gwneud y person a ddyfarnwyd yn euog yn anghymwys ar gyfer cyflawni dyletswyddau'r swydd; neu

    2. ymddygiad sy'n anghydnaws â dyletswyddau'r swydd; neu

    3. methiant neu wrthodiad parhaus neu esgeulustod neu analluu i gyflawni dyletswyddau'r swydd.

6. Ni fydd y Cyngor yn diswyddo Cadeirydd/Is-Gadeirydd y Cyngor hyd nes y bydd wedi cael cyfle rhesymol i gael gwrandawiad gan y Cyngor.

7. Caiff yr Is-Gadeirydd ymddiswyddo ar unrhyw adeg drwy rybudd ysgrifenedig i Gadeirydd y Cyngor, a chaiff y Cadeirydd ymddiswyddo ar unrhyw adeg drwy rybudd ysgrifenedig i'r Cyngor.

8. Os yw swydd Cadeirydd y Cyngor yn dod yn wag drwy farwolaeth neu ymddiswyddiad, neu am unrhyw achos arall cyn diwedd cyfnod y swydd, bydd Is-Gadeirydd yn gweithredu fel Cadeirydd hyd nes bydd y Cyngor wedi penodi Cadeirydd.

**ORDINHAD 5: AELODAETH Y CYNGOR**

1. Bydd aelodaeth y Cyngor yn cynnwys y bobl ganlynol:

   1. aelod *ex officio*
   - Yr Is-Ganghellor

   2. aelodau a benodir

      i. Tri Is-Ganghellor/ Pennaeth a benodir gan ac o blith Is-Gangellorion/ Penaethiaid y sefydliadau hynny a fydd, o dan ddarpariaethau'r Ordinhadau, ac am y tro, wedi'u dynodi gan y Brifysgol yn Sefydliadau Achrededig

      ii. Tri Chadeirydd cyrff llywodraethu a benodir gan ac o blith Cadeiryddion y sefydliadau hynny a fydd, o dan ddarpariaethau'r Ordinhadau, ac am y tro, wedi'u dynodi gan y Brifysgol yn Sefydliadau Achrededig

      iii. Dau berson a benodir gan ac o blith y cynrychiolwyr ar Fwrdd Academaidd y sefydliadau hynny a fydd, o dan ddarpariaethau'r Ordinhadau, ac am y tro, wedi'u dynodi gan y Brifysgol yn Sefydliadau Achrededig

      iv. Un person a benodir gan ac o blith staff y Brifysgol.

      v. Un person o blith y myfyrwyr sy'n dilyn dyfarniad Prifysgol Cymru, a benodir gan y Llywyddion myfyrwyr (pa derm bynnag a ddefnyddir am y swydd honno) o'r sefydliadau hynny a fydd, o dan ddarpariaethau'r Ordinhadau, ac am y tro, wedi'u dynodi gan y Brifysgol yn Sefydliadau Achrededig.

      vi. Deuddeg person annibynnol arall.

   3. aelodau cyfetholedig

      Hyd at ddau berson annibynnol

2. Yn unol â darpariaethau Statud 15, darperir trwy hyn:

   1. y bydd Is-Gangellorion/Penaethiaid y sefydliadau hynny a bennir gan y Brifysgol o dan ddarpariaethau'r Statudau ac Ordinhadau, ac am y tro, yn Sefydliadau Achrededig, yn gymwys i'w hethol i'r Cyngor, yn amodol ar y darpariaethau yn 2.3 a 2.4 isod, ac y byddant yn ffurfio'r coleg etholiadol ar gyfer etholiadau o'r fath;

   2. y bydd Cadeiryddion cyrff llywodraethu'r sefydliadau hynny a bennir gan y Brifysgol o dan ddarpariaethau'r Statudau ac Ordinhadau, ac am y tro, yn Sefydliadau Achrededig, yn gymwys i'w hethol i'r Cyngor, yn amodol ar y darpariaethau yn 2.3 a 2.4 isod, ac y byddant yn ffurfio'r coleg etholiadol ar gyfer etholiadau o'r fath;

   3. na fydd mwy nag un aelod yn y categorïau o bobl a benodir o blith y Sefydliadau Achrededig (Is-Gangellorion/Penaethiaid a Chadeiryddion) yn deillio o'r un sefydliad;

   4. y bydd penodiadau'r Is-Gangellorion/Penaethiaid a Chadeiryddion yn cylchdroi o gwmpas y sefydliadau perthnasol;

   5. y bydd holl aelodau'r Bwrdd Academaidd, ar wahân i'r Is-Ganghellor ac aelod-fyfyrwyr, yn gymwys i'w hethol i'r Cyngor, ond y bydd yr holl aelodau yn ddieithriad yn ffurfio'r coleg etholiadol ar gyfer etholiadau o'r fath;

6. y bydd yr holl bobl hynny a gyflogir gan y Brifysgol yn gymwys i'w hethol i'r Cyngor, ac y byddant yn ffurfio'r coleg etholiadol ar gyfer etholiadau o'r fath;

7. y bydd y Llywyddion myfyrwyr (pa derm bynnag a ddefnyddir am y swydd honno) o'r sefydliadau hynny a bennir gan y Brifysgol o dan ddarpariaethau'r Statudau ac Ordinhadau, ac am y tro, yn Sefydliadau Achrededig, yn ffurfio coleg etholiadol ar gyfer ethol un myfyriwr o blith y myfyrwyr hynny sy'n dilyn dyfarniad Prifysgol Cymru, i wasanaethu fel aelod o Gyngor y Brifysgol;

8. y gwneir pob penodiad arall i Gyngor y Brifysgol ar argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.

3. Bydd pob penodiad, ar wahân i'r rhai ar gyfer aelodau cyfetholedig neu swyddi gwag achlysurol, yn cychwyn ar 1 Awst, a heb fod yn hwyrach na 3 mis cyn diwedd cyfnod swydd aelod a benodwyd, bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn hysbysu'r colegau etholiadol priodol am unrhyw gyfryw swyddi gwag a allai fodoli gan wahodd enwebiadau. Caiff enwebiadau eu cyflwyno yn ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd, er mwyn iddynt gyrraedd erbyn y dyddiad cau penodedig fan bellaf. Rhaid amgáu tystiolaeth o gydsyniad yr enwebai gydag enwebiadau.

4. Gwneir enwebiadau ar gyfer penodi Is-Gangellorion/Penaethiaid a Chadeiryddion yn unol â'r darpariaethau a nodir o dan 2.3 a 2.4 uchod. Mewn achos lle na lynir at y cyfryw ddarpariaethau, gellir anwybyddu unrhyw enwebiad o'r fath.

5. Os nad yw nifer yr enwebiadau a geir gan Ysgrifennydd y Cyngor erbyn y dyddiad cau ar gyfer penodi Is-Gangellorion/ Penaethiaid a Chadeiryddion yn uwch na nifer y swyddi gwag, datganir bod y person(au) a enwebwyd wedi'u hethol. Os yw nifer yr enwebiadau a geir erbyn y dyddiad cau yn uwch na nifer y swyddi gwag i'w llenwi, yna cynhelir etholiadau drwy bleidlais gudd gan y coleg etholiadol priodol. Bydd yr enwebai/enwebeion cymwys o fewn pob categori sy'n derbyn y nifer fwyaf o bleidleisiau yn cael ei ethol/eu hethol.

6. Bydd pob swydd wag sy'n codi ymhlith yr aelodau eraill a benodwyd yn cael eu llenwi cyn gynted â phosibl gan y coleg etholiadol priodol am weddill y tymor sydd heb ddod i ben. Os yw gweddill y tymor yn llai na hanner cyfnod swydd yr aelod sy'n cael ei ddisodli yna bydd unrhyw gyfnod o'r fath yn cael ei anwybyddu wrth bennu cymhwyster yr aelod hwnnw ar gyfer penodiad neu etholiad pellach.

7. Bydd pob swydd wag sy'n codi ymhlith yr aelodau annibynnol a chyfetholedig yn cael eu llenwi cyn gynted â phosibl gan y Cyngor am weddill y tymor sydd heb ddod i ben. Os yw gweddill y tymor yn llai na hanner cyfnod swydd yr aelod sy'n cael ei ddisodli yna bydd unrhyw gyfnod o'r fath yn cael ei anwybyddu wrth bennu cymhwyster yr aelod hwnnw ar gyfer penodiad neu etholiad pellach.

8. Caiff unrhyw aelod a benodir i aelodaeth o'r Cyngor yn unol â darpariaethau statud 15(1)(b)(i) benodi eilydd i fynychu cyfarfodydd y Cyngor os yw ef/hi hefyd yn aelod o'r Cyngor yn rhinwedd swydd arall.

9. Yn unol â darpariaethau Statud 15(2), bydd holl aelodau Cyngor y Brifysgol ar wahân i'r Is-Ganghellor a'r aelod-fyfyriwr yn dal eu swyddi am dair blynedd neu cyhyd ag y byddant yn dal y cymhwyster a'u gwnaeth yn gymwys i'w penodi i'r Cyngor yn y lle cyntaf, pa bynnag un yw'r cyfnod byrraf.

10. Bydd yr holl aelodau a benodir, ar wahân i'r aelod-fyfyriwr, yn gymwys i'w hailbenodi am un tymor pellach o hyd at dair blynedd, ac eithrio yn achos Is-Gangellorion/Penaethiaid a Chadeiryddion, lle bydd y darpariaethau a nodir ym mharagraffau 2.3 a 2.4 uchod yn berthnasol. Bydd aelodau cyfetholedig hefyd yn gymwys i'w penodi am un tymor pellach o hyd at dair blynedd.

11. At ddibenion y Weithred a wnaed rhwng y Brifysgol a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ar 18 Awst 2017 ac aelodaeth gyffredin â Chyngor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd aelodau annibynnol yn dal eu swydd, fel arfer, am bedair blynedd a byddant yn gymwys i'w hailbenodi am gyfnod pellach o bedair blynedd.

12. Penodir yr aelod-fyfyriwr am gyfnod o un flwyddyn a bydd yn gymwys i'w ailbenodi am un flwyddyn bellach.

13. Yn unol â darpariaethau uchod yr Ordinhad hwn, gall y Cyngor gymeradwyo drwy Benderfyniad Arbennig argymhelliad y caiff aelod o'r Cyngor sydd wedi gwasanaethu am ddau dymor yn olynol barhau, fel achos arbennig, i wasanaethu fel aelod o'r Cyngor am gyfnod sydd i'w bennu gan y Cyngor, cyhyd â bod y sail dros wneud eithriad i'r gofynion arferol yn cael ei chofnodi yng nghofnod y cyfarfod o'r Cyngor y cymeradwyir yr argymhelliad ynddo.

14. Gellir diswyddo unrhyw aelod o'r Cyngor am y rhesymau canlynol:

    1. euogfarn am drosedd y gallai'r Cyngor farnu sy'n gwneud y person a ddyfarnwyd yn euog yn anghymwys ar gyfer cyflawni dyletswyddau'r swydd; neu

    2. ymddygiad sy'n anghydnaws â dyletswyddau'r swydd; neu

    3. methiant neu wrthodiad parhaus neu esgeulustod neu anallu i gyflawni dyletswyddau'r swydd.

    Ni fydd y Cyngor yn diswyddo unrhyw aelod hyd nes y bydd wedi cael cyfle rhesymol i gael gwrandawiad gan y Cyngor.

15. Caiff aelodau o'r Cyngor ymddiswyddo ar unrhyw adeg drwy rybudd ysgrifenedig i Gadeirydd y Cyngor.

**ORDINHAD 6: PWERAU'R CYNGOR**

Caiff pwerau'r Cyngor eu hegluro yn Statud 17 fel yr ailadroddir isod.

Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Siarter a'r Statudau, bydd gan y Cyngor, yn ogystal â'r holl bwerau eraill a freiniwyd ynddo, y pwerau a ganlyn:

1. Penodi'r Canghellor, Dirprwy Ganghellor a'r Is-Ganghellor mewn modd ac am dymor i'w pennu drwy Ordinhad.

2. Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor mewn modd ac am dymor i'w pennu drwy Ordinhad.

3. Penodi staff y Brifysgol a rheoli cyflogau ac amodau cyflogaeth y staff hynny ac i sefydlu'r swyddi o fewn y Brifysgol y credir o bryd i'w gilydd eu bod yn fuddiol.

4. Cyflwyno ar sefydliadau eraill statws Sefydliad Achrededig neu Sefydliad Perthynol y Brifysgol.

5. Ar gyngor y Bwrdd Academaidd ac o dan amodau sydd i'w rhagnodi yn yr Ordinhadau:

    1. caniatáu i Sefydliadau Achrededig a Sefydliadau Perthynol, ac i Gyrff Cysylltiol eraill yr hawl i sefydlu a gweithredu cynlluniau astudio a rhaglenni ymchwil sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol a chofrestru myfyrwyr ar y cyfryw gynlluniau a rhaglenni yn y fath fodd ac ar y telerau a'r amodau y bernir gan y Brifysgol eu bod yn briodol;

    2. pennu trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau mewn perthynas â'r cynlluniau astudio a'r rhaglenni ymchwil hynny sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol a sefydlwyd yn unol â Statud 17(5)(i);

    3. caniatáu i unrhyw Sefydliad Achrededig a Sefydliad Perthynol a fydd wedi ennill ei bwerau dyfarnu graddau a addysgir ei hun, gyfrifoldeb dirprwyedig am faterion yn ymwneud ag ansawdd a safonau cynlluniau astudio sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol lle bydd cynlluniau astudio o'r fath yn cael eu gweithredu gan y cyfryw sefydliad neu gan unrhyw Sefydliad Achrededig neu Sefydliad Perthynol arall;

    4. caniatáu i unrhyw Sefydliad Achrededig a Sefydliad Perthynol a fydd wedi ennill ei bwerau dyfarnu graddau ymchwil ei hun, gyfrifoldeb dirprwyedig am faterion yn ymwneud ag ansawdd a safonau rhaglenni ymchwil sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol lle bydd rhaglenni ymchwil o'r fath yn cael eu gweithredu gan y cyfryw sefydliad neu gan unrhyw Sefydliad Achrededig neu Sefydliad Perthynol arall;

    5. o dro i dro, adolygu unrhyw benderfyniadau a fydd wedi'u gwneud gan y Cyngor mewn perthynas â darpariaethau Statud 17(5)(i), Statud17(5)(ii), Statud 17(5)(iii) a Statud 17(5)(iv) ac y bernir gan y Cyngor eu bod yn briodol er mwyn,

        (i) cadarnhau'r hawliau a'r cyfrifoldebau a ganiatawyd o dan Statud 17(5)(i), Statud 17(5)(iii), a Statud 17(5)(iv) a'r trefniadau a bennwyd o dan Statud 17(5)(ii);

        (ii) pennu amodau ar gyfer parhad yr hawliau a'r cyfrifoldebau a ganiatawyd o dan Statud 17(5)(i), Statud 17(5)(iii), a Statud 17(5)(iv) ac addasu'r trefniadau a bennwyd o dan Statud 17(5)(ii); neu

        (iii) tynnu'r hawliau a'r cyfrifoldebau a ganiatawyd o dan Statud 17(5)(i), Statud 17(5)(iii) a Statud 17(5)(iv) yn ôl a therfynu'r trefniadau a bennwyd o dan Statud 17(5)(ii).

6. Cadarnhau cyflwyno graddau, diplomâu, tystysgrifau ac anrhydeddau academaidd eraill gan y Brifysgol.

7. Yn ddarostyngedig i amodau a bennir yn yr Ordinhadau, cymeradwyo cyflwyno Graddau er Anrhydedd ac Anrhydeddau eraill gan y Brifysgol.

8. Hawlio a chael y cyfryw ffioedd sy'n daladwy i'r Brifysgol mewn perthynas ag astudiaethau sy'n arwain at Raddau a chymwysterau'r Brifysgol.

9. Ar ôl ymgynghori â'r Bwrdd Academaidd, rheoli'r ffioedd a'r taliadau eraill sydd i'w talu i arholwyr ac aseswyr allanol mewn perthynas ag arholiadau'r Brifysgol.

10. Sefydlu, ar y cyd â'r Bwrdd Academaidd ac yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a osodwyd gan y sylfaenwyr, Gymrodoriaethau, Ysgoloriaethau Ymchwil, Ysgoloriaethau, Gwobrau a Bwrsarïau'r Brifysgol a chymhorthion eraill i astudio ac ymchwilio.

11. Cymeradwyo cydgysylltiad cyrff a sefydliadau eraill yn unol ag Erthygl V(j) y Siarter.

12. Penodi unigolyn neu unigolion i ymweld â'r cyfleusterau cyffredinol o ran addysgu ac ymchwilio mewn unrhyw gorff neu sefydliad sydd ar hyn o bryd, neu a all ddod, yn Gorff Cysylltiol a chyflwyno adroddiad arnynt.

13. Galw am adroddiadau oddi wrth gyrff y Brifysgol, ac unrhyw Gorff Cysylltiol neu Gyrff Cysylltiol.

14. Negodi ar ran y Brifysgol ag Adrannau'r Llywodraeth ac unrhyw awdurdodau, sefydliadau, cwmnïau a phobl eraill.

15. Diddymu neu amrywio'r Siarter neu ychwanegu ati.

16. Gwneud Statudau ac Ordinhadau o fewn y terfynau ac yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau a awdurdodir gan y Siarter, y Statudau a'r Ordinhadau.

17. Llywodraethu, rheoli a gofalu am gyllid, cyfrifon, buddsoddiadau, eiddo, busnes a holl faterion y Brifysgol o bob math, ac at y diben hwnnw i benodi bancwyr neu asiantau eraill y bo'r Cyngor yn barnu ei bod yn fuddiol eu penodi ac i beri i lyfrau cyfrifon priodol gael eu cadw ar gyfer pob ffynhonnell o arian a geir ac a werir gan y Brifysgol ac ar gyfer asedion a rhwymedigaethau'r Brifysgol; fel y bo'r llyfrau hynny yn rhoi darlun cywir a theg o faterion y Brifysgol ac yn esbonio'i thrafodion.

18. Buddsoddi unrhyw arian sy'n perthyn i'r Brifysgol mewn stociau, cronfeydd, cyfrannau, gwarannau neu fuddsoddiadau o bob math (heblaw tir) lle bynnag y bônt (p'un a awdurdodir hynny gan y gyfraith gyffredinol ar gyfer buddsoddi arian ymddiriedolaeth neu nad awdurdodir mohono) fel y gwêl y Cyngor yn dda neu mewn prynu tir yn y Deyrnas Unedig yn ddarostyngedig neu heb fod yn ddarostyngedig i brydlesoedd neu denantiaethau ac i amrywio unrhyw fuddsoddiadau o'r fath gan gynnwys realeiddio buddsoddiadau presennol ac ail-fuddsoddi derbyniadau net y realeiddio. Ar yr amod, yn achos arian a ddelir gan y Brifysgol fel ymddiriedolwr, y caiff y pwerau a roddir drwy hyn eu hymarfer yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r gyfraith ynglŷn â buddsoddi gan ymddiriedolwyr. Ar yr amod pellach na fydd y pwerau i fuddsoddi ac i amrywio buddsoddiadau a gynhwysir uchod yn estyn i arian a buddsoddiadau a ddelir gan y Brifysgol fel ymddiriedolwr ar ymddiriedolaethau arbennig a grëwyd gan roddwr neu ewyllysiwr.

19. Gwerthu, prynu, cyfnewid, rhoi ar brydles a derbyn prydlesau o eiddo real a phersonol ar ran y Brifysgol.

20. Cynnal a gwaredu'r adeiladau, y tir, y celfi/dodrefn a'r cyfarpar sy'n perthyn i'r Brifysgol neu a ddelir mewn ymddiriedolaeth ganddi ac i ddarparu'r adeiladau ychwanegol y bo'r Cyngor yn ystyried eu bod yn briodol.

21. Cael benthyg arian ar ran y Brifysgol ac, at y diben hwnnw, os gwêl y Cyngor yn dda, i forgeisio neu arwystlo y cyfan neu ran o eiddo'r Brifysgol, boed real neu bersonol, a rhoi unrhyw warrant arall y bo'r Cyngor yn gweld yn dda.

22. Llunio, amrywio a chyflawni contractau ar ran y Brifysgol.

23. Darparu ar gyfer lles yr holl bobl sydd neu a oedd ar unrhyw adeg yn aelodau o staff y Brifysgol a dibynyddion y bobl hynny, gan gynnwys talu arian, pensiynau neu fudd-daliadau eraill ac i danysgrifio i gronfeydd lles a chronfeydd eraill er budd y bobl hynny.

24. Penodi a diddymu pwyllgorau sy'n cynnwys yn rhannol neu'n llwyr aelodau o'r Cyngor a dynodi'r modd y penodir aelodau a swyddogaethau pwyllgorau o'r fath.

25. Dan amodau sydd i'w pennu yn yr Ordinhadau, cyflwyno i unrhyw berson deitl Athro, Darllenydd neu unrhyw un o deitlau eraill y Brifysgol (ac i dynnu unrhyw deitl o'r fath yn ôl).

26. Bod yn unig geidwad a defnyddiwr Sêl Gyffredin y Brifysgol.

27. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Siarter a'r Statudau, pennu'r holl faterion sy'n ymwneud â llywodraethu, cenhadaeth, strategaeth, cynllunio a gweinyddu gweithgareddau'r Brifysgol a'i gwasanaethau canolog.

28. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Siarter a'r Statudau, cymryd unrhyw gamau y gwêl yn dda at ddibenion hyrwyddo buddiannau ac effeithlonrwydd y Brifysgol a thrafod busnes gweithredol y Brifysgol.

29. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Siarter a'r Statudau, ymarfer holl bwerau eraill y Brifysgol.

30. Dirprwyo unrhyw rai o'i bwerau i Swyddogion ac i'r pwyllgorau hynny a sefydlwyd o dan Statud 17(24) am unrhyw gyfnod ac o dan unrhyw amodau a bennir gan y Cyngor, a sefydlu ac adolygu'n gyson y gweithdrefnau a'r cyfyngiadau ar gyfer arfer awdurdod dirprwyedig, ar yr amod

    1. nad oes dim yn caniatáu i'r Cyngor ddirprwyo unrhyw rai o'i bwerau i unrhyw bwyllgor a sefydlwyd o dan ddarpariaethau Statud 17(24) lle nad yw mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol hefyd yn aelodau o'r Cyngor;

    2. nad oes dim yn caniatáu i'r Cyngor ddirprwyo unrhyw rai o'i bwerau mewn perthynas â:

        (i) phennu unrhyw faterion yn ymwneud â llywodraethu, cenhadaeth a strategaeth y Brifysgol;

        (ii) cymeradwyo'r amcanion incwm a gwariant blynyddol a'r datganiadau ariannol mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol;

        (iii) sicrhau hydaledd y Brifysgol a diogelu ei hasedau;

        (iv) penodi neu ddiswyddo'r Is-Ganghellor;

        (v) diddymu, amrywio neu ychwanegu at y Siarter neu'r Statudau neu'r Ordinhadau.

Cworwm

Bydd cworwm cyfarfodydd y Cyngor fel arfer yn draean aelodau cyfredol y Cyngor ynghyd ag un aelod arall, ar yr amod y ceir bob amser fwyafrif o aelodau annibynnol dan ddarpariaethau Ordinhad 5, nad ydynt yn weithwyr cyflogedig nac yn fyfyrwyr yn y Brifysgol, yn bresennol ac â'r hawl i bleidleisio.

**ORDINHAD 7: PWYLLGORAU'R CYNGOR**

1. Yn gyson â darpariaethau'r Weithred a wnaed rhwng y Brifysgol a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ar 18 Awst 2017, yn effeithiol o fis Medi 2019 ymlaen, gwasanaethir Cynghorau'r naill Brifysgol a'r llall gan un strwythur pwyllgor sefydlog integredig.

2. Pwyllgorau'r Cyngor fydd y canlynol:

    1. Pwyllgor Academaidd;
    2. Pwyllgor Archwilio a Risg;
    3. Pwyllgor Craffu'r Grŵp;
    4. Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu;
    5. Pwyllgor Taliadau; a
    6. Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.

3. Yn unol â'r Weithred, bydd aelodaeth o Bwyllgorau Cyngor y ddwy Brifysgol yn cynnwys craidd cyffredin o lywodraethwyr, yn gyson yn unig â'r gofyniad dan gyfraith elusennau i allu cynnal cyfarfodydd dilys â chworwm o'r pwyllgorau gyda chworymau nad ydynt yn gwrthdaro.

4. Ystyrir enwebiadau ar gyfer aelodaeth o Bwyllgorau'r Cyngor, a'u hargymell i'r Cyngor eu cymeradwyo, gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.

5. Diffiniadau

    1. Bydd 'Aelod ex officio' yn un sy'n dal aelodaeth yn rhinwedd ei swydd neu benodiad.

    2. Bydd 'Aelod Cyfetholedig' yn un sydd wedi'i wahodd gan y Pwyllgor ei hun i wasanaethu, o dan bwerau cyfethol, a bydd yn aelod llawn o Bwyllgor gyda hawliau siarad a phleidleisio.

    3. Bydd 'Aelod Annibynnol' yn un nad yw fel arall yn gymwys i'w benodi o dan ddarpariaethau Statud 15(1), Y Cyngor.

    4. Bydd 'Aelod-Fyfyriwr' yn un a benodir gan Lywyddion Myfyrwyr (pa derm bynnag a ddefnyddir am y swydd honno) y sefydliadau hynny a bennir gan y Brifysgol o dan ddarpariaethau'r Ordinhadau, ac am y tro, yn Sefydliadau Achrededig, ac a fydd yn dilyn dyfarniad Prifysgol Cymru; neu gan fyfyrwyr Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

    5. Bydd 'Aelod-Staff' yn un a benodir gan ac o blith staff y Brifysgol o dan delerau Ordinhad 5, neu gan ac o blith staff Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

6. Cyfnod y Penodiad

    1. Penodir aelodau Pwyllgorau'r Cyngor yn flynyddol gan y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a bydd penodiadau o'r fath yn dod i rym ar unwaith. Er lles parhad, y disgwyliad arferol yw y bydd aelod o'r Cyngor yn gwasanaethu am dair blynedd ar Bwyllgor. Fel arfer bydd aelodau Cyfetholedig yn gwasanaethu am bedair blynedd neu gyfnod byrrach fel y penderfyna'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu. Y rheolau a'r gweithdrefnau sy'n llywodraethu ailbenodiadau, ymddeoliad a swyddi gwag achlysurol fydd y rhai a fabwysiedir gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.

    2. Bydd aelodau ex-officio o Bwyllgorau'r Cyngor yn dal y swydd cyhyd ag y byddant yn parhau i fod yn y swydd y daethant yn aelodau yn ei sgil.

    3. Diswyddo aelodau pwyllgorau

        Yn ôl ei ddisgresiwn, caiff y Cyngor ddiswyddo unrhyw aelod o'r Pwyllgor am y rhesymau canlynol:

(i) euogfarn am drosedd y gallai'r Cyngor farnu sy'n gwneud y person a ddyfarnwyd yn euog yn anghymwys ar gyfer cyflawni dyletswyddau'r swydd; neu

(ii) ymddygiad sy'n anghydnaws â dyletswyddau'r swydd; neu

(iii) methiant neu wrthodiad parhaus neu esgeulustod neu analluidiau i gyflawni dyletswyddau'r swydd (gan gynnwys diffyg presenoldeb mewn cyfarfodydd pwyllgorau).

7. Eglurir cylch gorchwyl, aelodaeth, cworwm, amlder cyfarfodydd, presenoldeb swyddogion a gofynion adrodd pob Pwyllgor mewn atodiad i'r Ordinhadau hyn. Gellir diwygio'r atodiad o bryd i'w gilydd gyda chymeradwyaeth y Cyngor.

8. Gweithred y Cadeirydd

1. Bydd gan Gadeirydd y Cyngor (neu Is-Gadeirydd(ion) y Cyngor), parthed unrhyw fater i'w benderfynu gan y Cyngor neu unrhyw rai o'i Bwyllgorau, yr awdurdod i ystyried unrhyw fater sydd, yn ei farn ef neu yn ei barn hi:

   - yn gofyn am sylw ar unwaith; ac
   - nad yw'n cyfiawnhau cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor neu unrhyw un o'i Bwyllgorau a fyddai fel arfer yn ystyried y mater; neu
   - sy'n gymaint o fater brys fel y byddai'n anymarferol galw cyfarfod.

2. Cyn ymarfer y pwerau hyn, dylai Cadeirydd y Cyngor ymgynghori ag Is-Gadeirydd(ion) y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor perthnasol a'r Is-Ganghellor.

3. Rhoddir adroddiad ynghylch unrhyw weithredu gan Gadeirydd y Cyngor (neu, yn absenoldeb y Cadeirydd, gan Is-Gadeiryddion y Cyngor) yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

**ORDINHAD 8: DILËWYD**

**ORDINHAD 9: DILËWYD**

**ORDINHAD 10: DILËWYD**

**ORDINHAD 11: DILËWYD**

**ORDINHAD 12: DILËWYD**

**ORDINHAD 13: DILËWYD**

**ORDINHAD 14: DILËWYD**

**ORDINHAD 15: DILËWYD**

**ORDINHAD 16: GWASG PRIFYSGOL CYMRU**

1. Bydd y Cyngor yn cadw trosolwg ar waith, cyfeiriad strategol a pherfformiad ariannol a gweithredol Gwasg Prifysgol Cymru trwy adroddiadau i'r Cyngor a'i Bwyllgorau.

2. Bydd yr Is-Ganghellor yn enwebu y Prif Swyddog Gweithredu a Pro Is-Ganghellor o'r Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i baratoi adroddiadau ar waith y Wasg i'r Cyngor a'i Bwyllgorau. Caiff yr enwebai awdurdod dirprwyedig i wneud penderfyniadau yn unol â'r Cynllun Dirprwyo cymeradwy.

3. Caiff pwyllgor ymgynghorol ei sefydlu gyda chynrychiolaeth briodol gan bobl o'r tu allan i'r Brifysgol i gynnig cyngor ac arweiniad i Gyfarwyddwr y Wasg ar opsiynau strategol o ran datblygu, dewis cynigion i'w cyhoeddi a materion perthnasol eraill Cyfarwyddwr y Wasg mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Gweithredu a'r Pro Is-Ganghellor fydd yn penderfynu ar gylch gorchwyl, aelodaeth a threfniadau gweithredol y Pwyllgor. Bydd gan y Pwyllgor awdurdod dirprwyedig i wneud penderfyniadau yn unol â'r Cynllun Dirprwyo cymeradwy.

**ORDINHAD 17: DILËWYD**

**ORDINHAD 18: DILËWYD**

**ORDINHAD 19: AELODAETH Y BWRDD ACADEMAIDD**

1. Fel y rhagnodir gan Statud 18, bydd aelodaeth y Bwrdd Academaidd yn cynnwys y bobl ganlynol:

    1. aelodau *ex officio*

        (i) Yr Is-Ganghellor
        (ii) Cadeiryddion y Pwyllgorau hynny o'r Bwrdd Academaidd a sefydlir o dro i dro

    2. aelodau a benodir

        (i) Dau aelod o staff academaidd o bob un o'r Sefydliadau hynny a bennir, o dan ddarpariaethau'r Statudau ac Ordinhadau, ac am y tro, yn Sefydliadau Achrededig

        (ii) Dau aelod o staff â phrofiad mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a benodir gan Gyngor y Brifysgol o blith y Sefydliadau Achrededig hynny sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

        (iii) Dau fyfyriwr o blith y rheini sy'n astudio am ddyfarniadau'r Brifysgol

2. Bydd aelodau *ex-officio* y Bwrdd Academaidd yn dal y swydd cyhyd ag y byddant yn parhau i fod yn y swydd y daethant yn aelodau yn ei sgil.

3. Bydd yr aelodau a benodwyd ar y Bwrdd Academaidd, ar wahân i'r aelod-fyfyrwyr, yn dal eu swyddi am dair blynedd neu cyhyd ag y byddant yn dal y cymhwyster a'u gwnaeth yn gymwys i'w penodi i'r Bwrdd Academaidd yn y lle cyntaf, pa un bynnag yw'r cyfnod byrraf.

4. Bydd pob penodiad, ar wahân i swyddi gwag achlysurol, yn dechrau ar 1 Awst, a heb fod yn hwyrach na thri mis cyn diwedd cyfnod swydd aelod a benodwyd, bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn hysbysu'r coleg etholiadol priodol o unrhyw swyddi gwag a allai fodoli ac yn gwahodd enwebiadau. Rhaid cyflwyno enwebiadau yn ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd, er mwyn iddynt gyrraedd erbyn y dyddiad cau penodedig fan bellaf. Rhaid amgáu tystiolaeth o gydsyniad yr enwebai gyda phob enwebiad.

5. Bydd pob swydd wag sy'n codi ymhlith aelodau a benodwyd yn cael eu llenwi cyn gynted â phosibl gan y coleg etholiadol priodol am weddill y tymor sydd heb ddod i ben. Os yw gweddill y tymor yn llai na hanner cyfnod swydd yr aelod sy'n cael ei ddisodli yna bydd unrhyw gyfnod o'r fath yn cael ei anwybyddu wrth bennu cymhwystra'r aelod hwnnw ar gyfer penodiad neu etholiad pellach.

6. Ni fydd unrhyw aelod a benodwyd, fel arfer, yn gwasanaethu am ragor na dau dymor yn olynol, ac yn dilyn hynny rhaid cael cyfnod o dair blynedd cyn bod y person hwnnw yn gymwys i'w ailbenodi.

7. Bydd y Llywyddion myfyrwyr (pa derm bynnag a ddefnyddir am y swydd honno) o'r sefydliadau hynny a bennir gan y Brifysgol, o dan ddarpariaethau'r Statudau ac Ordinhadau, ac am y tro, yn Sefydliadau Achrededig, yn ffurfio coleg etholiadol ar gyfer ethol dau fyfyriwr o blith y myfyrwyr hynny sy'n dilyn dyfarniad Prifysgol Cymru, i wasanaethu fel aelodau o'r Bwrdd Academaidd.

8. Bydd yr aelod-fyfyrwyr yn cael eu penodi am gyfnod o un flwyddyn a byddant yn gymwys i'w hailbenodi am un flwyddyn arall.

9. Caiff aelodau o'r Bwrdd Academaidd, ar wahân i aelodau *ex officio*, ymddiswyddo ar unrhyw adeg drwy rybudd ysgrifenedig i Gadeirydd y Bwrdd Academaidd.

**ORDINHAD 20: PWERAU'R BWRDD ACADEMAIDD**

Caiff pwerau'r Bwrdd Academaidd eu hegluro yn Statud 19 fel yr ailadroddir isod.

(A) Cyffredinol

Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Siarter a'r Statudau, bydd gan y Bwrdd Academaidd, yn ogystal â'r holl bwerau eraill a freiniwyd ynddo, y pwerau a ganlyn:

1. Sicrhau y cynhelir y safonau academaidd uchaf mewn perthynas â'i raddau a'i gymwysterau eraill a chadw a diogelu eu henw da a'u huniondeb, sut bynnag a lle bynnag y'u cynigir.

2. Cynghori'r Cyngor mewn perthynas â:

    1. caniatáu i Sefydliadau Achrededig a Sefydliadau Perthynol ac i Gyrff Cysylltiol eraill yr hawl i sefydlu a gweithredu cynlluniau astudio a rhaglenni ymchwil sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol a chofrestru myfyrwyr ar y cyfryw gynlluniau a rhaglenni;

    2. pennu trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau mewn perthynas â'r cynlluniau astudio a'r rhaglenni ymchwil hynny sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol a sefydlwyd yn unol â Statud 17(5)(i);

    3. caniatáu i unrhyw Sefydliad Achrededig a Sefydliad Perthynol a fydd wedi ennill ei bwerau dyfarnu graddau a addysgir ei hun, gyfrifoldeb dirprwyedig am faterion yn ymwneud ag ansawdd a safonau cynlluniau astudio sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol lle bydd cynlluniau astudio o'r fath yn cael eu gweithredu gan y cyfryw sefydliad neu gan unrhyw Sefydliad Achrededig neu Sefydliad Perthynol arall;

    4. caniatáu i unrhyw Sefydliad Achrededig a Sefydliad Perthynol a fydd wedi ennill ei bwerau dyfarnu graddau ymchwil ei hun, gyfrifoldeb dirprwyedig am faterion yn ymwneud ag ansawdd a safonau rhaglenni ymchwil sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol lle bydd rhaglenni ymchwil o'r fath yn cael eu gweithredu gan y cyfryw sefydliad neu gan unrhyw Sefydliad Achrededig neu Sefydliad Perthynol arall;

    5. adolygu unrhyw benderfyniadau a fydd wedi'u gwneud gan y Brifysgol mewn perthynas â darpariaethau Statud 17(5)(i), Statud 17(5)(ii), Statud 17(5)(iii) a Statud 17(5)(iv);

    6. cadarnhau'r hawliau a'r cyfrifoldebau a ganiatawyd o dan Statud 17(5)(i), Statud 17(5)(iii) a Statud 17(5)(iv) a'r trefniadau a bennwyd o dan Statud 17(5)(ii);

    7. pennu amodau ar gyfer parhad yr hawliau a'r cyfrifoldebau a ganiatawyd o dan Statud 17(5)(i), Statud 17(5)(iii) a Statud 17(5)(iv) ac addasu'r trefniadau a bennwyd o dan Statud 17(5)(ii);

    8. tynnu'r hawliau a'r cyfrifoldebau a ganiatawyd o dan Statud 17(5)(i), Statud 17(5)(iii) a Statud 17(5) (iv) yn ôl a therfynu'r trefniadau a bennwyd o dan Statud 17(5)(ii).

3. Pennu strategaeth a pholisi academaidd y Brifysgol.

4. Cynnig Statudau ac Ordinhadau, a ffurfio a chynnal Rheoliadau a Rheolau Sefydlog a datrys cwestiynau o ddehongliad neu ddiffyg cydymffurfio sy'n codi o'r cyfryw Reoliadau a Rheolau Sefydlog.

5. Darparu ar gyfer sefydlu a chyfansoddi unrhyw gyrff academaidd y Brifysgol y gall y Bwrdd Academaidd o bryd i'w gilydd ystyried eu bod yn ddymunol, a phennu cyfansoddiad, pwerau, dyletswyddau a swyddogaethau cyrff academaidd o'r fath a darparu ar gyfer diddymu unrhyw gorff academaidd a sefydlir yn y fath fodd.

6. Penodi a diddymu pwyllgorau sy'n cynnwys yn rhannol neu'n llwyr aelodau o'r Bwrdd Academaidd a dynodi'r modd y penodir aelodau a swyddogaethau pwyllgorau o'r fath.

7. Dirprwyo unrhyw rai o'i bwerau i Swyddogion ac i'r pwyllgorau hynny a sefydlwyd o dan Statud 19(6) am unrhyw gyfnod ac o dan unrhyw amodau a bennir gan y Bwrdd Academaidd, a sefydlu ac adolygu'n gyson y gweithdrefnau a'r cyfyngiadau ar gyfer arfer awdurdod dirprwyedig, ar yr amod:

    1. nad oes dim yn caniatáu i'r Bwrdd Academaidd ddirprwyo unrhyw rai o'i bwerau i unrhyw bwyllgor a sefydlwyd o dan ddarpariaethau Statud 19(6) lle nad yw mwyafrif aelodau'r cyfryw bwyllgor hefyd yn aelodau o'r Bwrdd Academaidd;
    2. nad oes dim yn caniatáu i'r Bwrdd Academaidd ddirprwyo ei bwerau i lunio Rheoliadau a Rheolau Sefydlog.

8. Cynghori'r Cyngor ar gyflwyno graddau, diplomâu, tystysgrifau ac anrhydeddau academaidd eraill y Brifysgol.

9. O dan amodau sydd i'w pennu yn yr Ordinhadau, awdurdodi derbyn i Raddau unrhyw rai fydd wedi dilyn cynllun astudio neu ymchwil cymeradwy ac a fydd wedi llwyddo yn arholiadau'r Brifysgol ac amddifadu unrhyw berson o unrhyw Radd fel yr enwyd uchod ar sail yr hyn y bydd y Bwrdd Academaidd yn ôl ei ddisgresiwn dilyffethair yn ei ystyried yn achos da ac ar unrhyw adeg i adfer unrhyw Radd i unrhyw berson a amddifadwyd felly.

10. O dan amodau sydd i'w pennu yn yr Ordinhadau, cyflwyno a chaniatáu Diplomâu, Tystysgrifau neu ddyfarniadau academaidd eraill i unrhyw bobl sydd wedi dilyn cynllun astudio cymeradwy ac amddifadu unrhyw berson o unrhyw Radd fel yr enwyd uchod ar sail yr hyn y bydd y Bwrdd Academaidd yn ôl ei ddisgresiwn dilyffethair yn ei ystyried yn achos da, ac ar unrhyw adeg i adfer y cyfryw ddyfarniad i unrhyw berson a amddifadwyd felly.

11. Galw am adroddiadau gan gyrff Prifysgol a chyrff a sefydliadau o'r fath sydd ar hyn o bryd neu a allai ddod yn Gorff Cysylltiol.

12. Penodi unigolyn neu unigolion i ymweld â'r cyfleusterau cyffredinol o ran addysgu ac ymchwil mewn unrhyw gorff neu sefydliad sydd ar hyn o bryd neu a allai ddod yn Gorff Cysylltiol, a chyflwyno adroddiad arnynt.

13. Sefydlu, ar y cyd â'r Cyngor ac yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a osodwyd gan y sylfaenwyr, Gymrodoriaethau, Ysgoloriaethau Ymchwil, Ysgoloriaethau, Gwobrau a Bwrsarïau'r Brifysgol a chymhorthion eraill i astudio ac ymchwilio.

14. Dyfarnu a thynnu'n ôl Gymrodoriaethau, Ysgoloriaethau Ymchwil, Ysgoloriaethau, Gwobrau a Bwrsarïau'r Brifysgol, a chymhorthion eraill i astudio ac ymchwilio, a rheoli'r amodau sydd ynghlwm wrth y gwobrau hynny.

15. Pennu cynllun a fformat y tystysgrifau gradd a dyfarniadau eraill.

16. Mynegi barn ar unrhyw fater sy'n berthnasol i'r Brifysgol a'i gweithrediadau ac i wneud argymhellion neu adroddiadau i'r Cyngor arno.

17. Penodi dau o'i aelodau i'r Cyngor, mewn modd a bennir drwy Ordinhad.

(B) Darpariaeth Ddilysedig

Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Siarter a'r Statudau bydd gan y Bwrdd Academaidd, yn ogystal â'r holl bwerau eraill a freiniwyd ynddo, y pwerau ychwanegol a ganlyn mewn perthynas â darpariaeth Ddilysedig:

1. Pennu Rheoliadau ar gyfer cynlluniau astudio a addysgir ac ymchwil.

2. Rheoli matriciwleiddio i gynlluniau ôl-raddedig, holl arholiadau'r Brifysgol a phenodi arholwyr allanol, fel y pennwyd yn yr Ordinhadau.

3. Ystyried a datrys pob cwestiwn yn ymwneud â dehongli Rheoliadau a Rheolau Sefydlog ac ystyried a datrys pob achos arbennig nad yw'n cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau o'r fath.

4. Cynghori'r Cyngor ynglŷn â ffioedd a thaliadau eraill sydd i'w talu i arholwyr ac aseswyr allanol mewn perthynas ag arholiadau ac asesiadau eraill y Brifysgol.

5. O dan amodau a gymeradwywyd gan y Brifysgol, cymeradwyo cynlluniau astudio neu raglenni ymchwil a fydd ar ôl hynny yn cael eu rhestru yn yr Ordinhadau.

**ORDINHAD 21: CYDGYSYLLTIAD SEFYDLIADAU**

1. Ar gyngor y Bwrdd Academaidd gall y Cyngor:

    1. ddatgan bod unrhyw sefydliad yn Sefydliad Achrededig o'r Brifysgol neu'n Sefydliad Perthynol o'r Brifysgol;

    2. sefydlu Cydgysylltiad rhwng y Brifysgol ac unrhyw sefydliad arall neu gangen neu adran ohono.

    Ym mhob achos, pennir y broses ar gyfer cydgysylltu mewn atodiad i'r Ordinhadau hyn.

*Sefydliadau Achrededig a Sefydliadau Perthynol*

1. Bydd y Cyngor yn pennu'r telerau ac amodau ynghylch cymhwystra sefydliad i fod yn Sefydliad Achrededig o'r Brifysgol neu'n Sefydliad Perthynol o'r Brifysgol.

2. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Statud 15 a Statud 18, bydd y Cyngor yn pennu'r hawliau a'r ymrwymiadau a roddir ar unrhyw sefydliad y datganir ei fod yn Sefydliad Achrededig o'r Brifysgol neu'n Sefydliad Perthynol o'r Brifysgol.

3. Gall y Cyngor dynnu unrhyw hawliau a ganiatawyd o dan yr Ordinhad hwn yn ôl ar argymhelliad y Bwrdd Academaidd. Ni fydd argymhellion o'r fath yn cael eu gwneud hyd nes y bydd y Bwrdd Academaidd a'r Cyngor wedi ystyried adroddiad ar y sefydliad neu sefydliadau dan sylw gan berson neu bobl a benodir i'r pwrpas hwn yn y modd ac â'r dyletswyddau a ragnodir yn y Siarter a'r Statudau.

4. Bydd rhestr o sefydliadau y'u dynodwyd yn Sefydliadau Achrededig yn cael ei chadarnhau gan y Cyngor ar ddechrau pob blwyddyn academaidd.

5. Bydd rhestr o sefydliadau y'u dynodwyd yn Sefydliadau Perthynol yn cael ei chadarnhau gan y Cyngor ar ddechrau pob blwyddyn academaidd.

6. Rhaid i unrhyw sefydliad sy'n dymuno ildio'i statws 'Achrededig' neu 'Berthynol' roi o leiaf 12 mis o rybudd i'r Brifysgol o'i fwriad i wneud hynny.

*Sefydliadau a chyrff eraill sydd â Chysylltiad â'r Brifysgol*

7. Bydd rhestr o sefydliadau y cydnabyddir bod ganddynt Gysylltiad â'r Brifysgol yn cael ei chadarnhau gan y Cyngor ar ddechrau pob blwyddyn academaidd.

8. Gall y Cyngor dynnu unrhyw hawliau a ganiatawyd o dan yr Ordinhad hwn yn ôl ar argymhelliad y Bwrdd Academaidd.

9. Gall y Cyngor dynnu unrhyw gydgysylltiad a ganiatawyd i sefydliad neu gorff yn ôl o dan delerau'r Ordinhad hwn.

**ORDINHAD 22: AELODAETH MYFYRWYR AR BWYLLGORAU'R BRIFYSGOL**

1. Bydd y Llywyddion myfyrwyr (pa derm bynnag a ddefnyddir am y swydd honno) o'r sefydliadau hynny a bennir gan y Brifysgol, o dan ddarpariaethau'r Statudau ac Ordinhadau, ac am y tro, yn Sefydliadau Achrededig, yn ffurfio'r coleg etholiadol ar gyfer ethol myfyrwyr o blith y myfyrwyr hynny sy'n dilyn dyfarniad Prifysgol Cymru, i wasanaethu fel aelodau o Bwyllgorau perthnasol y Brifysgol.

**ORDINHAD 23: MATRICIWLEIDDIO**

1. Matriciwleiddio yw derbyn myfyriwr yn ffurfiol i gynllun astudio neu ymchwil sy'n arwain at radd y Brifysgol neu unrhyw ddyfarniad academaidd y Brifysgol y mae gradd neu ffurf arall o gymhwyster a gymeradwywyd yn amod mynediad angenrheidiol.

2. Y Rheoliadau Academaidd sy'n rhagnodi trefniadau matriciwleiddio.

3. Yn unol â'r Weithred a wnaed rhwng y Brifysgol a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ar 18 Awst 2017, ni fydd y Brifysgol yn matriciwleiddio unrhyw fyfyriwr newydd ar unrhyw un o'i chynlluniau astudio israddedig nac ôl-raddedig **yn effeithiol o 1 Ionawr 2018**.

**ORDINHAD 24: TEITLAU'R BRIFYSGOL**

1. Gellir cyflwyno'r teitl Prifysgol 'Athro' neu 'Ddarllenydd' i unrhyw berson sydd wedi'i benodi i staff y Brifysgol.

2. Y Rheoliadau Academaidd sy'n rhagnodi'r meini prawf a'r trefniadau ar gyfer cyflwyno'r teitl Prifysgol 'Athro' neu 'Ddarllenydd'.

**ORDINHAD 25: GRADDAU, DIPLOMÂU A THYSTYSGRIFAU**

1. Er mwyn bod yn gymwys am ddyfarniad gradd gyntaf y Brifysgol, heblaw gradd *honoris causa*, rhaid i bob ymgeisydd fod wedi gwneud y canlynol:

    1. bodloni'r gofynion ar gyfer matriciwleiddio fel y'u pennir gan Reoliad Academaidd;

    2. dilyn a chwblhau'n llwyddiannus yn ddarostyngedig i'r Statudau ac yn unol â'r Rheoliadau priodol gynllun astudio sy'n arwain at radd;

    3. cydymffurfio â gofynion y cyfryw Statudau a'r Ordinhadau eraill a'r Rheoliadau Academaidd sy'n berthnasol.

2. Er mwyn bod yn gymwys am ddyfarniad gradd uwch neu ychwanegol y Brifysgol, heblaw gradd *honoris causa*, rhaid i bob ymgeisydd fod wedi gwneud y canlynol:

    1. dilyn a chwblhau'n llwyddiannus, yn unol â'r Rheoliadau Academaidd priodol, gynllun ymchwil neu astudio am nid llai na blwyddyn o hyd;

    2. cydymffurfio â holl ofynion eraill y Rheoliadau Academaidd sy'n ymwneud â graddau uwch ac ychwanegol y Brifysgol.

3. Caiff y cyfnod astudio a'r holl ofynion eraill sy'n angenrheidiol er mwyn cymhwyso pobl i ennill diplomâu, tystysgrifau a dyfarniadau academaidd eraill y Brifysgol eu pennu gan Reoliad Academaidd.

4. Er gwaethaf y darpariaethau uchod, gellir awdurdodi'r dyfarniadau *aegrotat* canlynol, o dan amodau a bennir gan y Brifysgol mewn Rheoliadau Academaidd:

    1. gradd gyntaf, diploma neu dystysgrif;

    2. gradd uwch neu ychwanegol, diploma ôl-raddedig neu dystysgrif ôl-raddedig.

5. Ni ellir cyflwyno unrhyw radd, diploma na thystysgrif i unrhyw berson nad yw wedi bodloni ei holl rwymedigaethau ariannol i'r Brifysgol neu i'r Sefydliad y mae'n fyfyriwr ynddo.

6. Gall y Brifysgol, o dan amodau a bennir yn y Rheoliadau Academaidd, awdurdodi y caiff ymgeisydd *naill ai* ei dderbyn i radd ar ôl marwolaeth *neu* y dyfernir iddo neu iddi dystysgrif neu ddiploma neu dystysgrif ôl-raddedig neu ddiploma ôl-raddedig.

7. Ar awdurdod y Bwrdd Academaidd yn unig y gellir derbyn pobl i raddau'r Brifysgol neu ddyfarnu iddynt ddiplomâu, tystysgrifau neu ddyfarniadau academaidd eraill y Brifysgol. Caiff y cyfryw awdurdod sy'n ymwneud â derbyn i raddau gan gynnwys awdurdod yr Is-Ganghellor neu ddirprwyon a enwebir ganddo neu ganddi i dderbyn pobl i'r cyfryw raddau ei bennu ymhellach yn y Rheolau Sefydlog priodol.

8. Caiff gweithdrefn a seremoni'r Cynulliadau eu penderfynu gan y Cyngor a fydd wedi ceisio cyngor y Bwrdd Academaidd yn gyntaf.

9. Yn unol â'r Statudau gall y Bwrdd Academaidd drwy benderfyniad amddifadu unrhyw berson o radd, diploma, tystysgrif neu ddyfarniad academaidd arall y Brifysgol. Ni chaiff unrhyw gyfryw berson ei amddifadu fel hyn oni bai y bydd wedi cael cyfle rhesymol i gael gwrandawiad gan y Bwrdd Academaidd. Gall y Bwrdd Academaidd drwy benderfyniad ddychwelyd ar unrhyw adeg unrhyw gyfryw radd, diploma, tystysgrif neu ddyfarniad academaidd arall i unrhyw berson a amddifadwyd fel hyn.

10. Caiff graddau'r Brifysgol eu dynodi fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| (i) | Gradd Sylfaen/ Foundation Degree: |
| FdA | Gradd Sylfaen yn y Celfyddydau/Foundation Degree in Arts |
| FdSc | Gradd Sylfaen mewn Gwyddoniaeth/Foundation Degree in Science |
| FdEng | Gradd Sylfaen mewn Peirianneg/Foundation Degree in Engineering |

| | |
|---|---|
| (ii) | Gradd Baglor/Degree of Bachelor: |
| BA | Baglor yn y Celfyddydau/Bachelor of Arts |
| BSc | Baglor mewn Gwyddoniaeth/Bachelor of Science |
| BScEcon | Baglor mewn Astudiaethau Economaidd a Chymdeithasol/<br>Bachelor of Economic and Social Studies |
| BEng | Baglor mewn Peirianneg/Bachelor of Engineering |
| BEd | Baglor mewn Addysg/Bachelor of Education |
| LLB | Baglor yn y Cyfreithiau/Bachelor of Laws |
| BMus | Baglor mewn Cerddoriaeth/Bachelor of Music |
| BArch | Baglor mewn Pensaernïaeth/Bachelor of Architecture |
| BN | Baglor mewn Nyrsio/Bachelor of Nursing |
| BMid | Baglor mewn Bydwreigiaeth/Bachelor of Midwifery |
| BDS | Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol/Bachelor of Dental Surgery |
| BSD | Baglor mewn Gwyddoniaeth mewn Deintyddiaeth/Bachelor of Science in Dentistry |
| MB | Baglor mewn Meddygaeth/Bachelor of Medicine |
| BCh | Baglor mewn Llawfeddygaeth/Bachelor of Surgery |
| BMedSc | Baglor mewn Gwyddor Feddygol/Bachelor of Medical Science |
| BD | Baglor mewn Diwinyddiaeth/Bachelor of Divinity |
| BTh | Baglor Ddiwinyddol/Bachelor of Theology |

| | |
|---|---|
| (iii) | Gradd Meistr / Degree of Master: |
| MChem | Meistr mewn Cemeg/Master in Chemistry |
| MEng | Meistr mewn Peirianneg/Master in Engineering |
| MESci | Meistr mewn Gwyddor Daear/Master in Earth Science |
| MMath | Meistr mewn Mathemateg/Master in Mathematics |
| MPhys | Meistr mewn Ffiseg/Master in Physics |
| MA | Meistr yn y Celfyddydau/Master of Arts |
| MFA | Meistr yn y Celfyddydau Cain/Master of Fine Arts |
| MSc | Meistr mewn Gwyddoniaeth/Master of Science |
| MScEcon | Meistr mewn Astudiaethau Economaidd a Chymdeithasol/<br>Master of Economic and Social Studies |
| MBA | Meistr mewn Gweinyddiaeth Fusnes/Master of Business Administration |
| MBL | Meistr mewn Busnes a'r Gyfraith/Master of Business and Law |
| MEd | Meistr mewn Addysg/Master of Education |
| LLM | Meistr yn y Cyfreithiau/Master of Laws |
| MPharm | Meistr mewn Fferylliaeth/Master of Pharmacy |
| MMus | Meistr mewn Cerddoriaeth/Master of Music |
| MTh | Meistr mewn Diwinyddiaeth/Master of Theology |
| MMin | Meistr mewn Gweinidogaeth/Master of Ministry |
| MPH | Meistr mewn Iechyd Cyhoeddus/Master of Public Health |
| MCh | Meistr mewn Llawfeddygaeth/Master of Surgery |
| MRes | Meistr mewn Ymchwil/Master of Research |
| LLM(Res) | Meistr yn y Cyfreithiau (Ymchwil)/Master of Laws (Research) |
| MPhil | Meistr mewn Athroniaeth/Master of Philosophy |
| MMarSci | Meistr mewn Gwyddorau Morol/Master of Marine Science |
| MEnvSci | Meistr mewn Gwyddorau Amgylcheddol/Master of Environmental Science |
| MMarBiol | Meistr mewn Bioleg Môr / Master of Marine Biology |
| MOcean | Meistr mewn Gwyddorau Eigion / Master of Ocean Sciences |
| MChiro | Meistr mewn Ceiropracteg / Master of Chiropractic |
| MBiol | Meistr mewn Bioleg / Master of Biology |
| MZool | Meistr mewn Swoleg / Master of Zoology |
| MOst | Meistr mewn Osteopatheg / Master of Osteopathy |
| MProfPrac | Meistr mewn Ymarfer Proffesiynol / Master of Professional Practice |
| MDes | Meistr mewn Dylunio / Master of Design |

| | |
|---|---|
| (iv) | Gradd Doethur/Degree of Doctor: |
| DBA | Doethur mewn Gweinyddiaeth Fusnes/Doctor of Business Administration |
| DBMS | Doethur mewn Gwyddorau Biofeddygol/Doctor of Biomedical Sciences |
| DCompSci | Doethur mewn Cyfrifiadureg/Doctor of Computer Science |

| | |
|---|---|
| DClinPsy | Doethur mewn Seicoleg Glinigol/Doctor of Clinical Psychology |
| DCounsPsy | Doethur mewn Seicoleg Cwnsela/Doctor of Counselling Psychology |
| DDS | Doethur mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol/Doctor of Dental Surgery |
| DEdPsy | Doethur mewn Seicoleg Addysg/Doctor of Educational Psychology |
| EdD | Doethur mewn Addysg/Doctor of Education |
| EngD | Doethur mewn Peirianneg/Doctor of Engineering |
| DTourism | Doethur mewn Twristiaeth/Doctor of Tourism |
| MD | Doethur mewn Meddygaeth/Doctor of Medicine |
| DNursSci | Doethur mewn Gwyddor Nyrsio/Doctor of Nursing Science |
| DMin | Doethur mewn Gweinidogaeth/Doctor of Ministry |
| PhD | Doethur mewn Athroniaeth/Doctor of Philosophy |
| DDSc | Doethur mewn Gwyddor Ddeintyddol/Doctor of Dental Science |
| DMus | Doethur mewn Cerddoriaeth/Doctor of Music |
| DD | Doethur mewn Diwinyddiaeth/Doctor of Divinity |
| DLitt | Doethur mewn Llên/Doctor of Letters |
| DSc | Doethur mewn Gwyddoniaeth/Doctor of Science |
| DScEcon | Doethur mewn Astudiaethau Economaidd a Chymdeithasol/ Doctor of Economic and Social Studies |
| DScEcon | Doethur mewn Economeg a’r Gwyddorau Cymdeithasol / Doctor of Economics and Social Science |
| LLD | Doethur yn y Cyfreithiau/Doctor of Laws |
| DUniv | Doethur er Anrhydedd y Brifysgol/Honorary Doctor of the University |
| DInfoSys | Doethur mewn Systemau Gwybodaeth / Doctor of Information Systems |
| DEBP | Doethur mewn Arferion Adeiladu Ecolegol /Doctor of Ecological Building Practice |
| DPsy | Doethur mewn Seicotherapi /Doctor of Psychotherapy |
| DHealth | Doethur mewn Iechyd / Doctor of Health |
| DHSci | Doethur mewn Gwyddor Iechyd / Doctor of Health Sciences |
| DPH | Doethur mewn Iechyd Cyhoeddus / Doctor of Public Health |
| SportD | Doethur mewn Chwarae / Doctor of Sport |

11. Yn unol â’r Weithred a wnaed rhwng y Brifysgol a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ar 18 Awst 2017, bydd y Brifysgol yn dirymu ei hawl i ddyfarnu graddau a addysgir ac ymchwil ar gyfer pob cynllun astudio i unrhyw fyfyriwr nad yw wedi’i fatriciwleiddio gan y Brifysgol ar 1 Ionawr 2018.

**ORDINHAD 26: CYNULLIADAU'R BRIFYSGOL / DERBYN I RADDAU CYNTAF AC UWCH**

*Awdurdod*

1. Yn unol â darpariaethau'r Siarter a'r Statudau, caiff Prifysgol Cymru awdurdodi (i) derbyn ymgeiswyr i raddau'r Brifysgol a (ii) cynnal cynulliadau'r Brifysgol.

*Cynulliadau ar gyfer Derbyn i Raddau Cyntaf a Graddau Uwch Prifysgol Cymru a gynhelir yn y Sefydliadau Achrededig a Pherthynol*

2. Gellir cynnal cynulliadau ar gyfer derbyn ymgeiswyr i raddau cyntaf a graddau uwch Prifysgol Cymru ym mhob un o'r sefydliadau achrededig a pherthynol a chyrff cysylltiedig.

3. Y sefydliad dan sylw fydd yn gwneud y trefniadau manwl ar gyfer trefnu Cynulliadau Graddau. Rhaid i'r Sefydliad hysbysu'r Brifysgol ynglŷn â threfniadau pob seremoni o leiaf dri mis cyn iddi ddigwydd.

4. Tua mis cyn y bwriedir cynnal Cynulliadau Graddau, rhaid i'r Brifysgol roi'r canlynol i Gofrestrydd (neu swyddog cyfatebol) pob sefydliad:

    1. y Proclamasiwn ffurfiol, yn awdurdodi cynnal y Cynulliad Graddau;

    2. y Penderfyniad, yn rhoi awdurdod i Is-Ganghellor Prifysgol Cymru neu i Is-Ganghellor neu Bennaeth sefydliad achrededig neu sefydliad perthynol dderbyn pobl i raddau;

    3. y fformwlâu sydd i'w defnyddio i gyflwyno'r darpar-raddedigion ar gyfer eu graddau;

    4. y fformwlâu sydd i'w defnyddio i dderbyn y darpar-raddedigion i'w graddau;

    5. y fformwla sydd i'w defnyddio i dderbyn pobl i gymdeithas cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru.

5. Drwy gydol y Cynulliad Graddau mae'n ofynnol i'r darpar-raddedigion wisgo'r wisg academaidd gywir sy'n briodol i'r graddau y maent i'w derbyn iddynt, a bennir yng Nghalendr Prifysgol Cymru.

6. Rhaid i Gofrestrydd (neu swyddog cyfatebol) y sefydliad o dan sylw anfon i'r Brifysgol ddau gopi o raglen pob Cynulliad Graddau cyn pen pum diwrnod gwaith i Gynulliad gael ei gynnal.

7. Gall ymgeiswyr sy'n mynegi eu bwriad i fynychu Cynulliad ond sydd wedyn yn penderfynu peidio â mynychu neu sy'n absennol am ryw reswm arall gael eu derbyn *in absentia* yn ôl disgresiwn y sefydliad.

8. Rhaid i raddedigion y dyfernir iddynt raddau mewn meddygaeth neu ddeintyddiaeth roi i'r Brifysgol, drwy eu sefydliad, y manylion sy'n angenrheidiol ynglŷn â rhag-gofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol neu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

*Derbyn i Raddau Cyntaf a Graddau Uwch Prifysgol Cymru*

9. Derbynnir ymgeiswyr i raddau cyntaf a graddau uwch gan Is-Ganghellor Prifysgol Cymru, neu gan Is-Ganghellor neu Bennaeth sefydliad achrededig neu berthynol perthnasol. Caiff unrhyw un o'r rhain ddynodi dirprwy i weithredu ar ei ran/ar ei rhan.

*Derbyn i Raddau drwy Archddyfarniad*

10. O bryd i'w gilydd, caiff Is-Ganghellor Prifysgol Cymru, neu Is-Ganghellor neu Bennaeth y sefydliad achrededig neu berthynol priodol dderbyn i raddau *in absentia* y cyfryw bobl sydd - ar ôl ymgymhwyso'n briodol ar gyfer graddau - yn dymuno cael eu derbyn felly, gan ddefnyddio'r fformwla ganlynol i'w derbyn:

> 'Yn rhinwedd yr awdurdod a freiniwyd ynof fi gan Brifysgol Cymru yr wyf yn derbyn i'w priod

raddau y bobl a restrwyd uchod sydd wedi mynegi eu dymuniad i gael eu derbyn *in absentia*.'

*Ni chaiff pobl sy'n dewis cael eu derbyn i radd yn y modd hwn eu derbyn iddi am yr eildro mewn cynulliad graddau diweddarach, er y caiff y sefydliad drefnu i bobl o'r fath ddathlu eu llwyddiant mewn digwyddiad diweddarach.*

*Darpariaeth Arbennig ar gyfer Derbyn i Raddau*

11. Er gwaethaf unrhyw un o'r darpariaethau uchod bydd gan Is-Ganghellor Prifysgol Cymru, neu Is-Ganghellor neu Bennaeth y sefydliad achrededig neu berthynol priodol awdurdod:

1. i farnu bod unrhyw ymgeisydd sydd wedi ymgymhwyso'n briodol ac y mae ei enw neu ei henw wedi ei hepgor, drwy amryfusedd, o raglen Cynulliad Graddau ('y rhaglen') wedi ei dderbyn neu ei derbyn i'w radd neu i'w gradd;

2. i gywiro unrhyw anghywirdeb yn y rhaglen;

3. i gadarnhau unrhyw ddiwygiad i'r rhaglen yn sgil canlyniad apêl.

Ym mhob achos o'r fath, bydd y camau a gymerir yn amodol ar i'r ymgeisydd fod wedi bodloni pob amod angenrheidiol ar gyfer cael ei dderbyn i'r radd o dan sylw a'i fod wedi ymgymhwyso ar gyfer y radd erbyn y dyddiad penodedig. Rhaid rhoi gwybod i'r Brifysgol ynglŷn â cham(au) o'r fath o dan y Ddarpariaeth Arbennig hon cyn pen pum diwrnod gwaith.

**ORDINHAD 27: GRADDAU ER ANRHYDEDD**

*Awdurdod*

1. Yn unol â darpariaethau'r Siarter a'r Statudau caiff y Brifysgol awdurdodi dyfarnu Graddau er Anrhydedd y Brifysgol i ymgeiswyr mewn Cynulliad o'r Brifysgol.

*Y Weithdrefn ar gyfer Derbyn i Raddau er Anrhydedd yng Nghynulliadau Prifysgol Cymru*

2. Derbynnir ymgeiswyr i raddau *honoris causa* gan Ganghellor neu Is-Ganghellor Prifysgol Cymru ym mhresenoldeb Cynulliad o'r Brifysgol a alwyd at y diben hwnnw.

3. Cynhelir Cynulliad ar gyfer derbyn pobl i raddau *honoris causa* ar y cyfryw adegau a awdurdodir gan Gyngor y Brifysgol.

4. Rhaid i Is-Ganghellor y Brifysgol roi gwybod am amser a lle Cynulliad Graddau er Anrhydedd fis o leiaf ymlaen llaw i Brif Swyddogion Prifysgol Cymru ac i aelodau ei Chyngor.

5. Caiff graddau *honoris causa* eu cyflwyno *in praesentia* fel rheol. Serch hynny, pan geir tystiolaeth er boddhad yr Is-Ganghellor na all un o'r darpar-raddedigion fod yn bresennol mewn Cynulliad Graddau er Anrhydedd, gall y radd gael ei chyflwyno naill ai *in absentia* neu *in praesentia* mewn Cynulliad Graddau a elwir yn unswydd at y diben.

**ORDINHAD 28: GRADDEDIGION PRIFYSGOL CYMRU**

1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaeth y Siarter a'r Statudau, bydd cymdeithas ar gyfer holl raddedigion a graddedigion er anrhydedd y Brifysgol (Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru, neu deitl arall fel y bydd Cyngor y Brifysgol yn cytuno arno o bryd i'w gilydd).

2. Bydd amcanion y corff fel a ganlyn:

    1. meithrin cysylltiadau clos rhwng y Brifysgol a'i graddedigion a darparu canolbwynt i alluogi ei holl raddedigion i gyfathrebu â'i gilydd ac â chyrff eraill;

    2. cyflenwi gwasanaethau i'w aelodau fydd yn ychwanegu at ac yn ategu'r rheini a ddarperir gan y sefydliadau lle bu'r myfyrwyr yn astudio ar gyfer eu graddau;

    3. ceisio cynnig cyfleoedd ar gyfer cydweithio a chyd-weithredu rhwng cyrff cyn-fyfyrwyr yn y sefydliadau ac ar gyfer hyrwyddo pob sefydliad yn fyd-eang;

    4. cyflenwi gwasanaethau a buddion i'w raddedigion rhyngwladol.

3. Bydd y Brifysgol yn darparu cyfleusterau ar gyfer gweithredu Swyddfa Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru i gefnogi cyflawni nodau cymdeithas y graddedigion (gyda ffocws arbennig ar nod 2(a) uchod).

4. Bydd y Brifysgol yn penodi Pwyllgor Cyswllt Cyn-fyfyrwyr i gynrychioli buddiannau graddedigion y Brifysgol a chefnogi gwaith Swyddfa Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru. Bydd y Pwyllgor hwn yn cynnwys digon o aelodau (heb fod yn llai nag un ar ddeg) a benodir o blith y corff ehangach o Raddedigion, i gyflawni cyfle cyfartal rhesymol, cydbwysedd rhwng y rhywiau, mewnbwn ffres ac ystod oedran cytbwys. Dylid adolygu'r aelodaeth bob blwyddyn i sicrhau bod aelodau'n cyflawni eu dyletswyddau ac yn ymgysylltu â'r Brifysgol.

5. Bydd y Pwyllgor Cyswllt Cyn-fyfyrwyr yn gweithredu er budd gorau graddedigion y Brifysgol yn gyffredinol.

6. Gall y Pwyllgor Cyswllt Cyn-fyfyrwyr gyflwyno sylwadau i'r Brifysgol ar unrhyw fater yn ymwneud â buddiannau'r Brifysgol a'i graddedigion. Rhaid cyflwyno sylwadau yn y lle cyntaf i'r Swyddfa Cyn-fyfyrwyr, ond gellir (os oes angen) eu trosglwyddo i'r Is-Ganghellor, ac wedi hynny i Gyngor y Brifysgol a/neu'r Bwrdd Academaidd.

7. O ystyried cyfansoddiad rhyngwladol eang ei aelodaeth, bydd y Pwyllgor Cyswllt Cyn-fyfyrwyr:

    1. yn cynnal ei fusnes yn bennaf drwy ddulliau a chyfathrebu electronig gan weithredu fel 'rhith' bwyllgor.

    2. fel y bo'n briodol, yn penodi aelod o fewn y pwyllgor i arwain ar drafodaethau neu faterion penodol.

**ORDINHAD 29: SÊL Y BRIFYSGOL**

1. Yn unol ag Erthygl XIV o'r Siarter a Statud 17, y Cyngor yn unig sydd â gofal Sêl y Brifysgol ac a gaiff ei defnyddio.

2. Bydd yr Is-Ganghellor yn gyfrifol i'r Cyngor am ddiogelwch Sêl y Brifysgol, a gedwir mewn man diogel yng Nghofrestrfa'r Brifysgol, ac am reoli ei defnydd.

3. Defnyddir Sêl y Brifysgol dim ond i selio dogfennau y mae angen sêl arnynt yn ôl y gyfraith neu drwy arfer a defnydd cydnabyddedig, o fewn y telerau yr awdurdodir defnyddio'r Sêl ar gyfer y canlynol

   Tystysgrifau Gradd
   Dogfennau Cyfreithiol
   Contractau
   Trawsgludiadau
   Anerchiadau Llongyfarch

4. Ni chaiff unrhyw berson diawdurdod gael mynediad at Sêl y Brifysgol nac at yr allweddi priodol a rhaid i'r Is-Ganghellor gadw rhestr o'r bobl a awdurdodir i ddefnyddio'r Sêl (gweithredwyr).

5. Rhaid i berson awdurdodedig heblaw'r gweithredwr/wyr awdurdodedig gadw allwedd(i) Sêl y Brifysgol yn ei ofal.

6. Rhaid cadw cofnod o bob dogfen y gosodir Sêl y Brifysgol arni mewn Llyfr Cofnodi Sêl a rhaid i bob cofnod yn y Llyfr Cofnodi Sêl gael ei lofnodi gan y gweithredwr/wyr yn gadarnhad bod y Sêl wedi'i gosod ar y ddogfen/dogfennau dan sylw.

7. Gellir ardystio dogfennau a weithredir dan Sêl y Brifysgol gan un llofnodwr awdurdodedig ar yr amod na fydd y Prif Swyddog Gweithredu a'i staff yn ardystio dogfennau lle mae'r pwnc yn un y mae ganddynt brif gyfrifoldeb ac atebolrwydd gweithredol drosto.

**ORDINHAD 30: YR ARCHWILWYR**

1. Bydd y Cyngor, ar gyngor y Pwyllgor Archwilio a Risg, yn penodi Archwilydd neu Archwilwyr. Rhaid i bob Archwilydd o'r fath fod yn aelod o gorff o gyfrifwyr a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig ac a gydnabyddir ar y pryd gan y Bwrdd Masnach at ddibenion paragraff (a) isadran (1) o adran 161 Deddf Cwmnïau 1948, neu unrhyw ailddeddfiad neu addasiad statudol ohoni sydd mewn grym ar y pryd. Ni chaiff neb ei benodi'n Archwilydd os yw ef neu hi neu un o'i bartneriaid neu o'i phartneriaid yn aelod o Gyngor neu staff y Brifysgol.

2. Bydd yr Archwilydd neu'r Archwilwyr yn dal y swydd am y cyfnod y penderfynir arno gan y Cyngor gan dderbyn y gydnabyddiaeth y penderfynir arni, a chan fod yn agored i'w hailbenodi.

3. Bydd gan yr Archwilydd neu'r Archwilwyr hawl ar bob adeg resymol i gael mynediad at lyfrau, cofnodion, cyfrifon a thalebau'r Brifysgol gan feddu'r hawl i fynnu oddi wrth swyddogion y Brifysgol yr wybodaeth a'r esboniadau a all fod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau.

4. Os daw swydd yr Archwilydd neu'r Archwilwyr yn wag drwy farwolaeth neu ymddiswyddiad neu unrhyw achos arall cyn diwedd cyfnod y swydd, bydd y Cyngor yn penodi Archwilydd yn eu lle ar unwaith am weddill y cyfnod hwnnw.

5. Bydd yr Archwilydd neu'r Archwilwyr yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor o leiaf unwaith bob blwyddyn.

6. Gall Archwilydd ymddiswyddo drwy rybudd ysgrifenedig i'r Cyngor.